Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 13.01.2023

Mae hwn yn fersiwn Gymraeg o ddau e-bost sydd yn cael eu gyrru allan, mae fersiwn Saesneg yn dilyn – gellir gweld holl fwletinau sydd wedi eu gyrru ar:
https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19

This is the Welsh version of two emails sent out, the English version will follow – all sent bulletins can be accessed on:
https://www.gwynedd.llyw.cymru/businesscovid19

# CYFLE: Peidiwch â cholli cyfle i gymryd rhan yn y Cynllun Platfform Digidol !

Mae cynllun Llwyfan Digidol Busnes@gwynedd.llyw.cymru yn helpu busnesau yn y sectorau lletygarwch a bwyd a diod yng Ngwynedd i wella eu sgiliau digidol. Mae sesiynau hyfforddiant ar-lein yn rhad ac am ddim ar gael rŵan – ond mae amser yn brin i gymryd rhan! Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://bit.ly/3AuERGR

Neu e-bostiwch: PlatfformDigidol@gwynedd.llyw.cymru

## DA IAWN: Tafarn y Madryn, Chwilog, ar y rhestr fer am yr 'Oscars Gwledig' yng Nghymru

Llongyfarchiadau i Dafarn y Madryn, Chwilog, ar gyrraedd y rhestr fer am y dafarn orau yng Nghymru yng Ngwobrau Cynghrair Cefn Gwlad Cymru eleni – yr 'Oscars Gwledig' – sy'n dathlu busnesau gwledig sy'n mynd gam ymhellach i gefnogi eu heconomi leol. I ddarllen mwy am y stori hon, gan gynnwys dolen i bleidleisio, ewch i:

https://nation.cymru/news/shortlist-announced-for-welsh-rural-oscars/

## DIGWYDDIAD: Grymuso Gogledd Cymru – Sgiliau ar gyfer y Dyfodol, 27 Ionawr 2023

Bydd Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru (PSR) yn lansio eu Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth 2023-2035 ar 27 Ionawr 2023 (9:00am) yn Venue Cymru, Llandudno. Bydd hefyd cyfle i gyflogwyr glywed am sgiliau, rhaglenni hyfforddi ac esiamplau o arfer da gan arweinwyr busnes a darparwyr sgiliau a hyfforddiant. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://bit.ly/3CJ41Il

## SGILIAU: 'Business for Good – Green Skills for Small Business'

Mae Small Business Britain yn lansio rhaglen gynaliadwyedd – 'Business for Good: Green Skills for Small Business' – sy'n agored i bob busnes bach sy'n awyddus i ddysgu mwy am y pwnc a deall y cyfleoedd all ddod yn sgîl cynaliadwyedd. Mae'r cwrs chwe modiwl yn dechrau ar 7 Chwefror 2023. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://bit.ly/3iuMNl2

I gofrestru, ewch i:

https://bit.ly/3H02zhg

# IECHYD A DIOGELWCH: Diweddariadau HSE

Mae'r Awdurdod Iechyd a Diogelwch (HSE) wedi diweddaru'r canllawiau canlynol:

- Risgiau iechyd o weithio gydag offer sgrin arddangos (DSE): https://www.hse.gov.uk/msd/dse/index.htm

- Gweithio'n ddiogel ar uchder: https://www.hse.gov.uk/work-at-height/index.htm

# CYFLOGAETH: Gwyliau Banc 2023 y DU

Mae Llywodraeth y DU wedi diweddaru y rhestr o wyliau banc yn 2023. I weld y rhestr, ewch i:

https://www.gov.uk/gwyliau-banc

Mae canllawiau am hawl gwyliau i weithwyr ar gael ar:

https://www.gov.uk/holiday-entitlement-rights

# AROLWG: Sut gallwn ni ddal ati i wneud ein bwletinau busnes yn well, ac a hoffech weld Wythnos Busnes Gwynedd yn dychwelyd?

Rydym bob amser yn chwilio am ffyrdd i wella a sicrhau eich bod yn cael yr help sydd ei angen arnoch. Rhowch wybod i ni sut y gallwn wneud ein bwletinau busnes hyd yn oed yn well ac os hoffech weld Wythnos Busnes Gwynedd yn dychwelyd yn 2023 trwy ateb cwpl o gwestiynau cyflym – ewch i:

https://bit.ly/ArolwgCefnogiBusnesGwyneddBusinessSupportSurvey

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-byst hyn bellach, os oes gennych gwestiwn, neu angen cyngor:
E-bostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru